# Y Dinesydd

**Hydref 2013 Rhif 381** Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

## Ysgol Newydd



*Derbynfa Ysgol Newydd Treganna - gweler stori Ysgolion Newydd*

## Martha a Jac i serennu ar raglen blant S4C, Igam Ogam

Allan o ddegau ar ddegau o blant mae Martha Grug Davies, merch 9 oed o Gaerdydd a Jac Morgan sydd hefyd yn 9 oed ac o Gaerdydd wedi cael eu dewis i leisio'r prif gymeriadau yng nghyfres blant S4C, Igam Ogam. Mae Igam Ogam yn gyfres sy'n dilyn anturiaethau merch ddireidus o Oes y Cerrig a'i ffrindiau. Mae ar gyfer plant meithrin iau sy'n dechrau siarad a cherdded a dysgu am y byd o'u cwmpas. Cwmni cynhyrchu Calon o Gaerdydd sy'n gyfrifol am y cynhyrchiad. Mae fersiwn Saesneg o'r gyfres ymlaen ar Sianel 5 hefyd.

Martha, sy'n ddisgybl blwyddyn pump yn Ysgol Gymraeg Treganna, fydd llais Igam Ogam, sef prif gymeriad y gyfres, a Jac, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pwll Coch, fydd yn lleisio ei ffrind direidus Roli Poli, y mwnci. Mae'r ddau wedi bod yn recordio ar gyfer yr ail gyfres hon o Igam Ogam yn Stiwdios Soundworks ym Mae Caerdydd dros wyliau'r haf.

"Roeddwn i'n teimlo'n lwcus iawn i gael y rhan ac roedd fy ffrindiau i gyd yn hapus pan nes i ddweud wrthon nhw" meddai Martha. "Mae'n hwyl clywed fy llais ar y teledu!"

"Nes i fwynhau oherwydd mae cymeriad Roli Poli yn ddoniol ac yn ddireidus - fel fi!" meddai Jac. "Hefyd, bob tro roeddwn i'n recordio roeddwn i'n cael bisgedi neu lolipop!"

Bydd y gyfres newydd ymlaen ar S4C bob dydd Llun a dydd Mercher am **07.40 y bore** gyda'r bennod gyntaf ymlaen **ddydd Llun 7 Hydref.**



*Martha a Jac o flaen 'Igam Ogam' a 'Roli Poli'*

## HWLIGANIAID PELDROED? GO BRIN!

Bu'n siwrne digon anarferol i griw o Gymry'r brifddinas wrth iddynt ddilyn tîm peldroed Cymru i'r gem ddiweddar ym Macedonia. Yn hytrach na hedfan yno ar gyfer penwythnos o wyliau penderfynasant yrru dros 2,000 o filltiroedd i Skopje, a hynny er mwyn codi arian at elusen y cefnogwyr, Gôl!

Teithiodd John Jones, Kevin Davies a Tim Hartley a'i fab Chester drwy 13 o wledydd gan ymweld â chartrefi plant ar hyd y ffordd. Yn y cartrefi rhoddwyd dillad, offer chwaraeon, losin ac anrhegion i'r bechgyn a'r merched. Gofynnid i'r plant beth oeddynt wir angen ac yna byddai'r criw yn mynd i'w brynu. Derbyniodd y plant ym Mainz yn yr Almaen feic newydd sbon; rhoddwyd camera fideo a chyfarpar pelfasged yn Tirana, Albania; dillad yn Podgorica ym Montenegro; a phrynwyd rhewgell i'r cartref yn Skopje ei hun. Ond nid dyna ddiwedd y daith. Yn dilyn y gêm fe yrrodd y criw i Felgrad a rhoi'r car i elusen sydd yn gweithio gyda phobl ifanc yn Ne Kosovo.



*Chester Hartley a LouisNi' Eidann gyda phlant yn Skopje*

Fe dalodd y pedwar am y daith eu hunain ac yna fe gasglwyd dros ddwy fil o bunnau i Gôl! Dywedodd Chester Hartley o Landaf, "Ryn ni wedi bod yn gwneud yr ymweliadau yma ers rhai blynyddoedd. Bob tro mae Cymru'n chwarae gêm ryn ni'n ceisio rhoi ychydig bach yn ôl i'r gwledydd sy'n ein croesawu. Roedd hi'n dipyn o daith ond roedd y plant wrth eu boddau gyda'r ymweliadau."

Yn ôl John Jones o Ystum Taf, "Ryn ni gyd yn mwynhau ein hunain wrth deithio a chefnogi Cymru ond bu yna duedd i'n gweld ni fel hwliganiaid. Dyn ni ddim, ac ryn ni'n awyddus iawn i drio gwella proffil cefnogwyr peldroed yn y gwledydd ryn ni'n ymweld â nhw."

Mae'r criw am ddiolch i Gweirydd ap Gwydaf o gwmni ariannol Macsen, Knight Fire a Security and Vision Communications am noddi'r car ac i bawb a gyfrannodd at y daith. Os hoffech chi helpu gyda gwaith Gôl mae modd cyfrannu ar lein - www.justgiving.com/Rhys-Chester-Hartley



*Plant yn Mainz yn mwynhau eu beic newydd*

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Gwynn Matthews**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Alun a Mair Treharne**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn 27 Hydref i:
91 Windermere Avenue, Parc y Rhath, Caerdydd CF23 5PS
Ffôn: 02920 754436 / 07800 908898
aluntreharne@btinternet.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**


## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri
**COFFEE LOUNGE**, Llanisien

# Merched y Wawr Bro Radur

Croesawodd Nia Jones, ein llywydd am y tymor 2013-2014, y criw niferus ddaeth i noson agoriadol y gangen Nos Fercher, Medi 11eg. Rhoddodd groeso arbennig i'n gwestai, Dr Christine James, yr Archdderwydd, gan ei llongyfarch ar gyflawni ei dyletswyddau mor rhagorol yn yr Eisteddfod eleni.


*Dr Christine James, Yr Archdderwydd*

Teitl cyfrol gyntaf o farddoniaeth Christine yw *rhwng y llinellau*, a gyhoeddwyd eleni, a dewisodd hi nifer o'r cerddi [daflunwyd ar sgrîn i ni] gan egluro, yn ei dull naturiol a chartrefol, yr ysgogiad i lunio'r rhain. Trwy gyfrwng cerddi fel, '**wyna, Tynewydd** *ymweliad â Fferm Tynewydd, ym mlaenau Cwm Rhondda, tua 1963*, **arddangosfa** i'r *Gusan, Auguste Rodin*, **blodau Mair** i *Madona'r Geian, Raffaello Santi* [Raphael], **lluwch geirie, deffro'n fardd, cyffyrddiad llais, goslef llaw** yn *ysbyty Cambridge, Cambridge, Mass., 16 Hydref 2002*, **disgwyl** *Aber-fan, Hydref 2006* a llawer o rai eraill, dilynwyd camau merch fach fagwyd ar aelwyd ddi-Gymraeg yn Nhonypandy i'w dyrchafu yn ferch gyntaf i swydd Archdderwydd Cymru. Cyffyrddodd â nifer o elfennau yn cynnwys ymateb i gelf a lluniau, pwysigrwydd Cristnogaeth iddi, bod yn fam, cyfnod salwch a chafwyd ambell gerdd ysgafn hefyd.

Wrth ddiolch i Christine mynegodd Rhiannon Evans mor freintiedig oeddem i gael gwraig mor urddasol a gostyngedig i'n cyfarfod agoriadol. Dyfynnodd y geiriau hyn o ragair *rhwng y llinellau* - 'gwn yn iawn am allu geiriau i gyffwrdd, i gyffroi, i annog ac i ysbrydoli gwrandawr neu ddarllenydd'. Dyna'n profiad ni y noson honno ac anogodd Rhiannon hi i roi'r union sgwrs pan fydd yn mynd i annerch amryfal gymdeithasau ar hyd a lled y wlad.


*Eirlys Eckley (Ysgrifennydd), Nia Jones (Cadeirydd), Rose Evans (Trysorydd)*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Cynhelir cyfarfodydd yr Aelwyd am 2013-14 ar brynhawn Mercher bob pythefnos yn Festri Capel Minny Street, Y Waun Ddyfal am 2.00 o'r gloch dan gadeiryddiaeth y Parchedig Haydn Thomas. Dymuna'r aelodau wahodd aelodau newydd i ymuno â'r aelwyd gynnes hon. Mae rhaglen amrywiol, gan gynnwys rhai teithiau, a fydd at ddant pawb, gobeithio! Croeso cynnes arbennig os ydych wedi symud i'r ddinas o rannau eraill o'r wlad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 23 Hydref ar y testun 'I Fyd yr Adar' yng nghwmni Mr Daniel Jenkins-Jones o RSPB Cymru. Am fanylion pellach a rhaglen, ffoniwch yr Ysgrifennydd, Menna Brown (029 2025 4679) neu e-bostio robinamenna@gmx.com. Hefyd gellir dilyn Calendr y *Dinesydd* bob mis.


**CWLWM BUSNES CAERDYDD**

***A yw'r Uwch Gynghrair i'r Adar Gleision yn golygu dyrchafiad i broffil Caerdydd?***

**Noson banel Cwlwm Busnes Caerdydd a gadeirir gan Tim Hartley**

**Nos Iau, 28 Tachwedd**
**6 ar gyfer 6.30pm**
**Gwesty'r Holiday Inn, Caerdydd**

I gadarnhau'ch lle cysylltwch â cwlwmbusnes@gmail.com


**Gwefan Y Dinesydd: www.dinesydd.com**

# Taith Cymdeithas Carnhuanawc i Ddulyn

Keith Bush yn ôl ei arfer drefnodd ein taith flynyddol, ac ar fore Gwener y 6ed o Fedi roedd 26ain ohonom wedi gwneud ein hunain yn gyfforddus yng Ngholeg y Drindod, Dulyn.

Y bore canlynol cawsom dywysydd arbennig o ddiddorol a'n harweiniodd o gwmpas mynwent Glasnevin. Roedd fel synopsis o hanes Iwerddon yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif gan ddechrau wrth fedd Daniel O'connell, (1795-1836) a adnabyddid fel 'Y Rhyddhawr Mawr'. Aros wedyn wrth fedd Parnell - carreg enfawr o wenithfaen Wicklow gyda dim ond yr enw "Parnell" arni. Ymlaen wedyn at feddau De Valera, Jim Larkin, Maude Gone, Michael Collins, Bobby Sands ac eraill.

Adfeilion hen fynachlog Glendalough yn un o ddyffrynoedd mynyddoedd Wicklow oedd ein cyrchfan nesaf. Yna ymweld ag Avondale, cartref Parnell.

Rhaid oedd ymweld â'r plasty bychan ar gyrion Dulyn sy'n amgueddfa i Ysgol Wyddeleg St Edna a sefydlwyd gan Padraig Pearse yn 1908. Roedd y cwricwlwm yn eitha modern: addysg ddwyieithog drwy ddefnyddio'r dull uniongyrchol, pwyslais ar wyddoniaeth, garddio a drama ond heb anghofio'r clasuron. Roedd hanes Iwerddon yn uchel iawn ar y cwricwlwm wrth gwrs. Doedd dim rheidrwydd ar y plant i sefyll arholiadau ac roedd ganddynt ddweud yn yr hyn roeddynt am ei ddysgu!



*Padraig Pearse ac Amgueddfa Ysgol St Edna*

Yn 1899, a'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, dewiswyd Padraig Pearse i gynrychioli Cynghrair Geltaidd Iwerddon ynddi ac fe'i derbyniwyd yn aelod o'r Orsedd dan yr enw 'Yr Areithydd'. Yn ystod ei arhosiad cafodd gyfle i drafod addysg Gymraeg gyda'r Bwrdd Ysgolion ac ymweld â sawl ysgol – Court Road, Sblotyn oedd un ohonynt.

Canolfan Wyddelig yw 6, Harcourt Rd, Dulyn. Yma roedd canolfan yr IRA yn nyddiau cythryblus dechrau'r ganrif ddiwethaf. Wedi cael hanes yr enwogion cawsom weld 'trap door' yn y nenfwd. Hwn fu'n ddihangfa i Michael Collins o afael y Black and Tans: daeth i lawr yn y caffi drws nesaf ac archebu paned! Clywsom mai ychydig llai na 2% sy'n siarad Gwyddeleg fel iaith gyntaf heddiw, ac er ei bod yn cael ei dysgu yn yr ysgolion, a 34% yn honni eu bod yn gallu ei siarad, cyndyn yw'r rhain o'i siarad yn ddyddiol.

Ein cyrchfan olaf oedd Tŵr Mortello yn Sandy Cove, Dun Laoghaire, cartref dros dro James Joyce, lle'r ysgrifennodd *Ulysses*.

Mae ein diolch yn fawr i Keith am daith tu hwnt o ddiddorol ac am drefnu popeth mor ddiffwdan a deheuig.

# *Clwb Gwawr Llygaid y 'Dydd*

Fe gychwynnodd Clwb Gwawr Llygaid y 'Dydd eu chweched tymor fis Medi gyda chroesawu Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, Gill Griffiths, atynt i'r 'Institute' yn Llandaf. Dyma fydd eu cartref newydd. Roedd hi'n braf iawn gweld cymaint yno, yn wynebau cyfarwydd yn ôl am flwyddyn arall, ac yn wynebau newydd.

Roedd sgwrs Gill yn un hynod ddiddorol. Bu'n trafod ei chysylltiad gyda'r Mudiad a'r hyn arweiniodd iddi gymryd awennau'r llywydd y llynedd. Bu hefyd yn son, yn hynod ddifyr, am ei thaith yr hydref diwethaf gyda Chymorth Cristnogol i Ethiopia. Roedd ei chlywed yn sgwrsio am yr hyn a welodd, mai'r merched sy'n gwneud yr holl waith yno, yn agoriad llygad. Roedd gweld lluniau ac eitemau o'r wlad ganddi yn arbennig hefyd. Fe wnaeth hi'n sicr agor ein meddyliau i'r hyn sy'n digwydd heddiw yno.

Fe fyddwn ni wedi bod allan yn ceisio dringo erbyn i'r rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* gyrraedd. Mae'r merched ifanc a heini yn anelu tua'r entrychion yng nghanolfan Boulders yn y ddinas! Gawn ni weld a fyddwn ni i gyd mewn un darn ar gyfer noson, nôl yn yr Institute, fis Tachwedd (am 7.45 yh). 'Blas Da' ydi teitl y noson a gyda'r Nadolig ar y gorwel mae'n sicr y bydd 'na ddanteithion melys ar ein cyfer. Croeso i unrhyw un ymaelodi gyda'r criw neu ddod atom unrhyw dro. Mae manylion ar dudalen Facebook y clwb: Clwb Gwawr Caerdydd neu Twitter: ClwbGwawrCdydd. Hefyd gallwch ebostio: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu.

# Dathlu Cyfraniad Enfawr ym Myd Traddodiadau Gwerin

Yn ogystal â chasglu gwrthrychau a chodi adeiladau, gwedd bwysig eithriadol ar waith yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan dros y blynyddoedd fu casglu gwybodaeth lafar am fywyd ac arferion pobl Cymru. Hanner can mlynedd union yn ôl i eleni, yn 1963, crëwyd yr Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd yn yr Amgueddfa, dan arweiniad Vincent H. Phillips.

Dau a fu'n aelodau o staff yr Adran honno o'r dyddiau cynnar ac a wnaeth gyfraniad aruthrol i'r gwaith o gasglu tystiolaeth lafar dros yr hanner can mlynedd diwethaf yw Roy Saer a Robin Gwyndaf. Mewn cyfarfod yn yr Amgueddfa Werin brynhawn dydd Sadwrn, 2 Tachwedd, bydd cyfle arbennig i wrando ar y ddau yn trafod eu gyrfaoedd yn Sain Ffagan ac i ddathlu eu cyfraniad pwysig tuag at gasglu deunydd llafar ym meysydd cerddoriaeth werin a llên gwerin.

Cynhelir y cyfarfod yn Ystafell Bwyllgor Amgueddfa Werin Cymru rhwng 1.30pm a 4.30pm.Mae'r cyfarfod dan nawdd Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Cyn-Fyfyrwyr Prifysgol Cymru, ond y mae'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a bydd croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch â Chadeirydd yr Adran Ethnoleg, yr Athro E. Wyn James, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd (JamesEW@caerdydd.ac.uk), neu'r Ysgrifennydd, Dr ***Emma Lile***, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, CF5 6XB
Emma.Lile@amgueddfacymru.ac.uk

## *Cydymdeimlo â*

• theulu y diweddar Glenys Roberts yr Eglwys Newydd, gynt o Gaernarfon a fu farw'n dawel yng Nghartre Tŷ Coch, Llanisien, ar 13 Medi. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 20 Medi.

• theulu'r diweddar John Morgan, Y Barri, a fu farw'n sydyn ar 30 Awst. Bu'r angladd yng Nghapel Tabernacl, Y Barri, ac yna yn Amlosgfa'r Barri ar 16 Medi.

# Newyddion...

**Bedydd Efa Mai**

Fore Sul Medi 15eg yng Nghapel y Crwys bedyddiwyd Efa Mai, merch Sioned a Cai Pritchard, Allensbank Road, Caerdydd. Gweinyddwyd yr ordinhâd gan Y Parchedig Ifan Roberts, Pontyberem, taid Mai, a phregethwyd gan y Parchedig Catrin Roberts, Pontyberem, nain Mai. Mae'r fechan hefyd yn wyres gyntaf i Julie a Graham Pritchard, Thornhill.

**Beicwyr yn codi arian i godi cofeb**

Yn ddiweddar bu wyth o feicwyr o Gôr Rygbi Gogledd Cymru yn beicio o Fangor i Fflandrys i godi arian i Apêl Cofeb y Cymry a fu farw yn Fflandrys yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Llywydd y Cynulliad, Rosemary Butler A.C., ydi llywydd yr apêl. Un o'r beicwyr oedd Meurig Rees, cyn brifathro Ysgol Glan Clwyd a brodor o Gaerdydd. Bu ei deulu yn aelodau yng Nghapel y Crwys a bu Meurig yn ddisgybl yn Ysgol Bryntaf ac Ysgol Uwchradd Cathays. Ei fam, Nesta Rees, oedd athrawes gyflogedig gyntaf y Cylch Meithrin Cymraeg cyntaf yng Nghaerdydd yn 1954 a arferai gyfarfod yn Festri Capel y Crwys. Mae ei ferch, Elin Rhys, yn athrawes yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn byw yng Nghaerdydd.

**Geni Gruffydd Siôn**

Ar Awst 3ydd ganwyd mab i Geraint a Sarah Hampson-Jones, Gruffydd Siôn, ym Mhenarth. Mae tad-cu a mam-gu Llandaf, Dafydd a Maria, 11 Ffordd Glasgoed/ Greenwood Road, wrth eu boddau gyda'u hŵyr cyntaf. Yn ddiweddarach yn y mis cafodd Maria lawdriniaeth ac mae'n braf dweud ei bod yn gwella'n dda iawn ac yn edrych ymlaen at gael amser difyr gyda Gruffydd Siôn.

**Priodas Siân a Carwyn**

Priodwyd Siân Morgan a Carwyn Lloyd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf yn ddiweddar. Mae Siân yn ferch i Alun a Gaynor, 14 Ffordd Glasgoed /Greenwood Road, ac mae Carwyn yn enedigol o Lanrug.

Mae Siân yn wyneb cyfarwydd ar y rhaglen 'Y Byd ar Bedwar' ac mae Carwyn yn ŵr camera llawrydd ac wedi bod yn gweithio'n ddiweddar i raglenni fel 'Sgorio' ac 'Heno'. Dymuniadau gorau i'r pâr ifanc sy'n byw yn Nhreganna.



*Siân Morgan a Carwyn Lloyd ar ôl eu priodas yn Eglwys Gadeiriol Llandaf.*

# *Llongyfarchiadau i...*

• David Wyn Jones, Athro a Phennaeth yr Adran Gerdd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae wedi ennill ysgoloriaeth Leverhulme gwerth £85,000 i ysgrifennu llyfr ar gerddoriaeth a diwylliant yn Fienna yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Bydd wedi ei ryddhau o'i ddyletswyddau yn y Brifysgol am ddwy flynedd er mwyn gwneud ei ymchwil yn Awstria ac i ysgrifennu'r llyfr. Daw David yn wreiddiol o Fforest, Pontarddulais, ond nawr mae'n byw yn Llysfaen gydag Ann ei wraig a'i ferch Yolande. Pob hwyl iddo.

• David Aled Jones, gynt o Wrecsam, a chyn-ddisgybl o Ysgol Morgan Llwyd, ar gael ei ethol yn Is-Lywydd Cymdeithas Ddaearegol Llundain. Sefydlwyd y gymdeithas hon yn 1807. Mae David yn gweithio i Gyfoeth Naturiol Cymru yng Nghaerdydd fel Arbenigwr Technegol. Ym mis Medi teithiodd draw i Perth yn Awstralia i annerch cynhadledd ryngwladol yno.

• Dr Owen Charles, Treganna, ar gwblhau her y Dyn Haearn yn Sir Benfro, ddydd Sul 8 Medi. Mae'n dipyn o gamp. Dim ond rhyw 200,000 o bobl sydd wedi cwblhau'r her trwy'r byd. Mae Catrin, Gruff, Alaw a Mai a gweddill y teulu yn falch iawn ohono! Mae'r teulu yn aelodau yn Salem, Treganna.

• Mark Cavendish enillodd y pedwerydd cymal o'r Râs Seiclo o gwmpas Prydain rhwng Stoke-on-Trent a Llanberis, ond daeth Cymro Cymraeg o Gaerdydd yn chweched yn y cymal hwn, sef Owain Doull. cyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf. Llongyfarchiadau iddo ar ei gamp mewn râs hynod o gystadleuol.

• Gapel y Tabernacl, yr Ais, ar ddathlu ei ddaucanmlwyddiant eleni. Yn y capel hwn y cynhaliwyd y rhaglen gyntaf o 'Songs of Praise' y BBC yn 1961, ac yn y capel hwn bu'r cerddor Arwel Hughes a'i deulu'n addoli. Cynhelir gwasanaeth arbennig i ddathlu'r achlysur ar 26 Hydref am 3pm.

• Rhys a Heledd Newton, Treganna, ar ennill llu o wobrau yn Eisteddfod y Tymbl yn ystod mis Medi. Ymhlith eu gwobrau, enillodd Rhys (sydd ym mlwyddyn 7 Glantaf) yr unawd offerynnol o dan 18 oed, trydydd ar yr unawd, ail ar lefaru a thrydydd ar ddarllen o'r ysgrythur. Yn ogystal ag ennill yr alaw werin, unawd, darllen o'r ysgrythur ac unawd offerynnol, fe gipiodd Heledd (sydd ym mlwyddyn 4 Pwll Coch) wobr y cerddor mwyaf addawol o dan 21 oed. Cyflwynwyd cwpan yr eisteddfod iddi a rhodd o £50 gan Gôr y Mynydd Mawr. Tipyn o gamp!



*Rhys a Heledd Newton*

• Huw a Rhiannon Williams, Grangetown, ar enedigaeth merch, Melangell Elfair, 11 Medi. Dr Huw Williams yw ysgrifennydd yr ymgyrch dros Ysgol Gymraeg yn Grangetown. Pob dymuniad da.

• Iwan Horan a Glesni Roberts, Glan yr Afon, ar enedigaeth Marged Aur yn Ysbyty'r Brifysgol ar 13 Awst. Wyres i Eleri Roberts, Tonteg, gynt o Lanuwchllyn.

# Colofn G.R.

Erbyn i'r geiriau hyn weld golau dydd byddwn yn meddwl am droi'r clociau yn ôl awr ac yna bydd y dydd yn byrhau'n gyflym a'r atgof am yr haf braf wedi hen bylu! Tybed sut aeaf sydd o'n blaenau? Amser a ddengys! Ond beth bynnag a ddaw, bydd rhaid ei wynebu gan obeithio am y gorau! Y tymor hwn ydy'r tymor mwyaf diflas o'r flwyddyn mewn gwirionedd a diolch am y Nadolig i ddwyn ein sylw oddi wrth yr elfennau!

Cofiaf ar ôl y Nadolig y llynedd i mi weld nifer o famau yn Siop Boots yn y dre yn prynu llond basgeidiau o deganau am hanner pris ar gyfer y Nadolig hwn! Cyn bo hir bydd y siopau yn ein hatgoffa mai dim ond hyn a hyn o ddyddiau siopa sydd ar ôl cyn dathlu'r Nadolig os nad ydyn nhw eisoes wedi dwyn ein sylw at y ffaith.

Ar ôl pob Eisteddfod cynhelir cwêst ar yr wythnos a'r gair mawr a ddefnyddir yn aml ydy'r gair "gwaddol" sef holi oes gwaddol o ganlyniad i ymweliad y Brifwyl â'r gwahanol ardaloedd? Yr ateb ydy, oes yn sicr, ac mae nifer o enghreifftiau yn dod i'r côf. Trodd Côr Eisteddfod y Bala yn Gôr Cymunedol Bro Meirion, a digwyddodd hyn hefyd ar ôl Eisteddfod Caerdydd flynyddoedd yn ôl pan ffurfiwyd côr dan arweiniad Alun Guy o'r enw Côr Philharmonic Caerdydd, a ffurfiwyd Côr Pensiynwyr y Mochyn Du dan arweiniad Sioned James i gystadlu yn Eisteddfod Caerdydd 2008 ac mae'n dal i gystadlu yn yr Eisteddfod. Wedyn ar ôl Eisteddfod Wrecsam agorwyd Canolfan Gymraeg yn y dref mewn hen dafarn o'r enw "Y Saith Seren", ac mae sôn am agor Canolfan debyg yn y Barri ar ôl Eisteddfod y Fro. Trodd pwyllgor codi arian Treganna ar gyfer Eisteddfod Caerdydd yn Gymdeithas Gymraeg sy'n cyfarfod yn nhafarn "Y Diwc" yn Nhreganna. Mae Côr Eisteddfod Glyn Ebwy yn dal i gyfarfod a sefydlwyd Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent yn sgil yr Eisteddfod honno.

Yn ystod yr haf daeth cwpwl o'r Wladfa i ymweld â'u merch a'i theulu yn Rhiwbeina ac un diwrnod es i â nhw i ymweld â chapel hanesyddol o'r enw Horeb yn Llwydcoed ger Aberdâr. Dyma gapel y Parch Abraham Matthews gweinidog cyntaf y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Mae stryd wedi ei enwi ar ei ôl yn Nhrelew yn Nyffryn Camwy. Cafodd ei ordeinio mewn capel arall yn Aberdâr gan neb llai na'i hen Brifathro yng Ngholeg y Bala sef Michael D Jones, sylfaenydd y Wladfa.

Ymwelais â'r capel nôl yn Ionawr hefo cyfaill arall i mi o'r Wladfa a thrist oedd sylwi ar gyflwr gwael yr adeilad ac roedd posteri ar y wal yn cyhoeddi bod y capel ar werth. Pan ymwelsom yn yr haf roedd posteri ar y wal yn cyhoeddi ei fod wedi ei werthu. Tybed beth ddaw o'r capel rwan?

Yn ystod Eisteddfod Dinbych dathlwyd y ffaith fod Cymdeithas Cymru-Ariannin yn 74 oed ers ei sefydlu pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn y dre nôl yn 1939. Mae'r Gymdeithas wedi hybu'r cysylltiadau â'r Wladfa byth oddi ar hynny a'r flwyddyn nesa yn Eisteddfod Llanelli ceir cyfle i ddathlu eto gan fydd y Gymdeithas mewn bodolaeth ers tri chwarter canrif! Yn 2015 bydd dathliadau lu i gofio'r ffaith bod 150 o flynyddoedd wedi pasio ers i 153 o Gymry dewr fentro ar long "Y Mimosa" o borthladd Lerpwl i fynd i'r Ariannin i sefydlu Gwladfa Gymreig yno.

Tra'n sôn am ddathlu, rhaid dymuno pen-blwydd hapus pump oed i Gymdeithas "Y Diwc" yn Nhreganna, i Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina sy'n 21 oed eleni ac i Bentref Gerddi yn Rhiwbeina sy'n gant oed eleni. Diau, cawn glywed am ddathliadau eraill yn ystod y misoedd a ddaw! Yn y cyfamser pob llwyddiant i bawb sy'n ymdrechu dros yr iaith yn ein dinas yn arbennig ymdrech rhieni Grangetown i fynnu Ysgol Gymraeg yn eu hardal nhw, wedi i Gyngor y Ddinas fynd yn ôl ar eu gair ar ôl newid y blaid sy'n rheoli'r Cyngor o ganlyniad i'r etholiadau lleol nôl yn y Gwanwyn. Daliwch ati rieni Grangetown! Dyfal donc a dyr y garreg meddai'r hen air!

# Mae'r Ystafell yn Fyw!

Mae'n debyg nad oes llawer ohonom wedi bod mewn parti penblwydd yn Theatr fawreddog Reardon Smith ond ar nos Sadwrn 7 Medi dathlwyd ail benblwydd Yr Ystafell Fyw mewn cyngerdd arbennig yno. Canolfan adfer ar gyfer unrhyw un sydd yn delio â dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau neu unrhyw ymddygiad caethiwus arall yw'r Ystafell Fyw. Trefnwyd y cyngerdd gan 'Ffrindiau'r Ystafell Fyw' a daeth tyrfa dda yno i ymuno yn yr hwyl. Roedd yr eitemau'n amrywiol iawn ac felly yn cynnig rhywbeth i blesio pawb.

Agorwyd y cyngerdd gydag eitemau gan 'Perfect Recall', grŵp poblogaidd, gyda'r aelodau yn dod o ardaloedd Caerdydd a Chasgwent. Sefydlodd Marian Evans gôr newydd yn ddiweddar ac fe gafwyd perfformiad nodedig gan y criw ifanc o blant o ysgolion cynradd Caerdydd. Yn ogystal â chanu caneuon poblogaidd Cymraeg fel 'Y Pethau Bach' a 'Bore' cafwyd hefyd ymdriniaeth caboledig o'r gân Swahili 'Dansi Na Quimba'. Hwn oedd perfformiad cyhoeddus cyntaf y côr ond fe fyddwn yn siwr o glywed llawer mwy am Gôr Plant Caerdydd yn y dyfodol. Triawd o ddwy ferch a bachgen yw 'Three's a Crowd' sy'n astudio ar Gwrs TAR yn y Coleg Cerdd a Drama ac roedd eu perfformiad yn adlewyrchaid o safon uchel o berfformwyr proffesiynol a gynhyrchir gan y coleg. Cafwyd eitemau personol ac emosiynol hefyd gan y gantores ifanc Elin Parisa Fouladi. Daeth y noson i ben gyda'r gynulleidfa'n ymuno â 'Perfect Recall' yn eu caneuon bywiog.

Arweinwyd y noson gan y darlledwr poblogaidd, Arfon Haines Davies, ac mae'r 'Ffrindiau' yn ddiolchgar iddo am fod mor barod ei gymwynas ar fyr rybudd! Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i'r parti ac i gadw drws Yr Ystafell Fyw yn agored "i fywyd newydd".



*Côr Plant Caerdydd yn ei morio hi yng nghyngerdd penblwydd Yr Ystafell Fyw*

# Ôl-Lwybrau

## Codi Pac – Neu Ddim?

Rwy'n un o nifer o rieni'r brifddinas sydd yn fy henoed wedi gwneud y penderfyniad dyrys i symud i fyw i lawr i'r de o ogledd Cymru. Pam? Oherwydd bod ein meibion a'n merched wedi dod i lawr am swyddi yn y ddinas, yna priodi a chael plant sydd angen eu gwarchod neu eu cludo yma ac acw. Yn ddistaw bach rwy'n meddwl ein bod ni oll yn falch o gael rhan yn natblygiad y plant yn ysbrydol ac yn ieithyddol – iaith y gogledd cofiwch!

Cefais fy ngeni mewn hen ffermdy yn dyddio'n ôl i 1643 mewn pentref bach cwbl Gymreig o'r enw Trelogan, yn agos iawn i Glawdd Offa. Pan oeddwn yn blentyn roedd pawb bron yn siarad Cymraeg gan gynwys yr 'efaciwis' yn ystod yr ail ryfel byd. Roeddem yn byw ar ororau Sir y Fflint ac y mae'r diolch i ddylanwad prifathro'r pentref, Joseff Caradog Williams, a'r capeli fod yr iaith yn fyw iawn bryd hynny.

'O ble y'ch chi'n dod?' gofynnir i mi'n aml, a chyn gynted ag yr atebaf 'Trelogan' ceir yr ateb, 'cartref David Lloyd', y tenor enwog. Mae ei recordiau mor boblogaidd ag erioed. Diolch iddo am roi'r pentref ar y map. Daeth yn eilun i werin y wlad.

Bachgen arall o'r un cyfnod ac o'r un ardal a ddaeth yn enwog oedd George Emlyn Williams, y dramodydd a'r actor. Daeth yn enw cyfarwydd ar sail ei ddramâu 'Night Must Fall', 'The Corn is Green', a.y.y.b. Ysgrifennodd a chyfarwyddodd y ffilm 'The Last Days of Dolwyn'. O'r pumdegau ymlaen cafodd lwyddiant mawr gyda'i berfformiadau unigol yn cyflwyno gweithiau Dickens a Dylan Thomas ledled y byd. Coffa da gennyf am yr athrawes Ffrangeg, Grace Cook, mentor Emlyn Williams yn y 'County School', Treffynnon. Yn anffodus ni chafodd ddylanwad arna i yn ystod y flwyddyn roeddwn yn ei dosbarth!

Roeddwn yn teithio ar fws i Dreffynnon ac weithiau yn mynd drwy bentref bach Chwitffordd. Ni wyddwn bryd hynny fod Thomas Pennant, y naturiaethwr galluog a'r teithiwr mawr wedi byw yno, ym Mlas Downing. Mae cofeb iddo ef a Moses Griffith, ei was a'i arlunydd, yn eglwys y pentref.

Wedi imi briodi, symudais i fyw i ganol Dyffryn Clwyd i bentref hardd, llawn hanes, sef Llanrhaeadr yng Nghinmeirch. Roedd dwy ran iddo, y Pentre a'r Llan, lle saif Eglwys Dyfnog Sant gyda'i ffenestr Jesse enwog.

A'r plant wedi gadael y nyth am y de, penderfynais godi pac o'r Rhyl a symud i fyw i wlad yr Hwntws yn fy henaint. Gallaf ddweud â llaw ar fy nghalon mai dyna un o'r pethau gorau a wnes yn fy mywyd.

**Glenys Thomas**


### GOFALU AM BLENTYN

Rydym yn chwilio am berson cymwys a charedig yn ardal Pen-y-lan i gasglu merch 4 oed o'r ysgol a gofalu amdani tan 18.00, Llun-Gwener o fis Medi 2014 ymlaen.

Cysylltwch â **07740 444596**


# COLOFNYDD Y MIS

## Owain Llŷr Evans

Daeth ein cyfnod yn nodedig am ei bwyslais ar ryddid yr unigolyn i fynegi ei hun. Dyma, yn ôl pob tebyg o leiaf, yw un o bennaf rinweddau ein diwylliant Gorllewinol. Dylai fod gan bawb ohonom yr hawl i wneud fel, pryd a lle bynnag y mynnom. Tra bod yr hawl hwnnw'n ddiogel, eilbeth yw pob hawl a gwirionedd arall.

O'r herwydd, gosodir pob un o werthoedd cymdeithas ar yr un gwastad. Mae dy wirionedd di – beth bynnag ydyw, yn gyfwerth â'm gwirionedd i – beth bynnag ydyw. Melir gwirionedd yn fân a daw'n ddim byd amgenach na mater rhyngof i â'm cydwybod. Dim ond un gwirionedd sydd yn sefyll yn uwch na phob gwirionedd arall, sef y gwirionedd fod gan bawb yr hawl i dderbyn ac ymarfer unrhyw wirionedd y mae ef neu hi'n ddymuno. Yn hyn o fyd, gorseddir goddefgarwch; sydd yn gwbl dderbyniol, hyd nes i ni faglu dros ryw bethau na ddylid - na ellid - eu goddef byth, pethau megis trais, fandaliaeth, hiliaeth a chreulondeb. Saif y pedwar hyn fel enghreifftiau o bethau cas tebyg.

Byd cymhleth eithriadol yw hwn; byd o hawliau teg, a gofynion cytbwys yn tynnu, y naill yn erbyn y llall. Yn anorfod, mae'r sawl sydd wedi ei drwytho yn y syniad fod ganddo'r hawl i fynegi ei hun, doed a ddelo, costied a gyst, yn fethiant llwyr fel dinesydd cyfrifol. Anwiredd yw ein gwirionedd, os oes yn rhaid i ni ei fynegi trwy fandaliaeth, dinistr a thrais.

Yma, yng Nghymru, mae pobl yn cefnu ar yr union fath o gymdeithas a all fagu'r dinasyddion sydd eu hangen ar ein gwlad a'n byd. Cymdeithas nad oes ei bath yn unman arall – cymdeithas o gydaddolwyr. Dyma'r fagwrfa orau i'r bersonoliaeth rydd, ond cyfrifol. Dyma lle gellir meithrin yr union bethau hynny y mae ar y byd fwyaf o'u hangen heddiw – hunan-barch a pharch at eraill.

# YSGOLION NEWYDD

Fe gofiwch slogan plant Ysgol Gymraeg Treganna – **'Nid sardîns ydym ni!'** Bellach, cydnabyddwyd hynny gan yr Awdurdod Addysg ac mae'r ysgol wedi symud i safle newydd sbon ar Sanatorium Road. Yno hefyd cafodd disgyblion Ysgol Tan-yr-Eos gartref newydd. Bellach bydd gan yr ysgol ar ei llawn dwf dri dosbarth y flwyddyn a meithrinfa.

Mae Ysgol Bro Edern, a sefydlwyd fel trydedd ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi symud o'i safle dros dro yn Ysgol Glantaf i gyn-safle Ysgol Teilo Sant. Mae gwaith adnewyddu yn mynd ymlaen ar y safle a disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn 2014.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf (Medi 16eg) ein tymor newydd cawsom gyfraniadau gan ddau o'n haelodau, Ann Saer a Neville Evans. Yr un testun oedd gan y ddau, Bywyd a Gwaith Gwyn Owain (G.O.) Jones, 29 Mawrth 1917 – 3 Gorffennaf 2006. Dyma ŵr o ddawn ddeallusol arbennig iawn, yn wyddonydd disglair ac yn nofelydd o safon, a'i lyfrau yn ddigon diddorol iddo gael cydnabyddiaeth yn y gyfres Artists in Wales, Rhif 3, gyda Meic Stephens yn olygydd.

Cyflwynodd Neville beth o'i hanes yn wyddonydd, gan nodi camau ei yrfa o'i addysg gynradd yn ysgolion Marlborough Road Caerdydd (ffaith nad yw'n hysbys mewn unrhyw deyrnged na nodyn bywgraffyddol, ond a hysbyswyd i ni gan Ann) a Phorthcawl, ei addysg uwchradd ym Mhort Talbot a Mynwy a'i yrfa brifysgol yn Rhydychen, Sheffield a Llundain. Yn yr olaf dringodd i fod yn Athro Ffiseg yng Ngholeg y Frenhines Mari.

Maes arbenigol ei ymchwil oedd gwydr, gan arloesi dulliau astudio nodweddion y cyflwr solid ar dymheredd isel iawn, oddeutu minws 273 gradd C gyda heliwm hylifol. Bu'n ddyfeisgar iawn ei hun wrth adeiladu aparatws at y perwyl ac roedd yn gefnogwr menter syniadau cydweithwyr.

Cyfraniad nodedig o wahanol oedd gan Ann, am ei bod yn un o deulu agos Gwyn. Yn rhinwedd y cyswllt hwn roedd Ann yn gallu sôn wrthym am ei addysg gynradd (uchod).

Brithwyd sgwrs Ann gyda nifer o sleidiau oedd yn ymwneud ag agweddau teuluol GO. Hefyd cawsom sylwadau ganddi am ei nofelau. Daeth a rhai ohonynt gyda hi i ni fwrw golwg drostynt

Syndod mawr i'r byd gwyddonol academaidd oedd ei benderfyniad yn 1968 i ymddeol o'i swydd yn Llundain a derbyn swydd Cyfarwyddwr Yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Roedd yr apwyntiad yn dipyn o sioc hefyd i'r sefydliad amgueddfaol; yr arfer ers tro oedd i'r pennaeth ddod o blith staff amgueddfa ac o gefndir traddodiadol megis y biowyddorau, daeareg a daearyddiaeth. Beth allai ffisegydd gyfrannu? Roedd GO ei hun ym ymwybodol o'r her.

Mae Ann yn dal yn weithgar iawn gyda Ffrindiau'r Amgueddfa. O'r safbwynt hwn mae hi'n gallu cloriannu cyfraniad y 'dieithryn' hwn. Ei barn yw bod cyfnod GO wrth y llyw yn llesol.

Yn ein cyfarfod nesaf (Hydref 21) byddwn yn croesawu Dr. Ralph Vaughan i sôn am agweddau ar ei yrfa yn arbenigwr anaesthesia.

# Ysgoloriaethau Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Braf yw gallu cyhoeddi fod pedwar o fyfyrwyr lleol i ardal papur bro *Y Dinesydd* wedi bod yn llwyddiannus wrth dderbyn ysgoloriaethau cymelliant Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni i astudio ym mhrifysgolion Cymru.

Mae'r canlynol oll wedi derbyn ysgoloriaeth o £1,500 dros gyfnod o 3 mlynedd i astudio amrywiol bynciau yn y brifysgol.

**O Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr:**

**Elliot Connor Johns** o Waelod y Garth – Daearyddiaeth Ddynol, Prifysgol Abertawe;

**Gwenno Pari Huws** o Dreganna – Gwyddorau Chwaraeon, Prifysgol Bangor;

**Morgan Gruffydd Thomas** o Landaf – Addysg Awyr Agored, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

**O Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf:**

**Jordan James Bishop** o Gabalfa – Chwaraeon ac Addysg Gorfforol, Prifysgol Met Caerdydd;

**Rhydian Tomos John Williams** o Rhiwbeina – Bioleg, Prifysgol Aberystwyth.

Meddai Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: 'Bob blwyddyn mae'r Coleg yn dyfarnu tua 150 o ysgoloriaethau i fyfyrwyr israddedig a fydd yn dilyn cyrsiau gradd mewn prifysgolion ar draws Cymru. Mae dros 300 o wahanol gyrsiau gradd cymwys bellach ar gael mewn saith prifysgol ar draws Cymru gyda'r ddarpariaeth yn datblygu yn gyson. Os ydych chi'n ystyried astudio rhywfaint o'ch cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, yna mae'n bosibl y bydd modd i chi ymgeisio am un o'n ysgoloriaethau. Ewch i'r wefan i ddarganfod mwy.'

Dyddiad cau y Brif Ysgoloriaeth yw 15 Ionawr 2014 a dyddiad cau yr ysgoloriaeth cymhelliant yw 1 Mai 2014. Gwefan y Coleg yw: **www.colegcymraeg.ac.uk**




# Ysgol Berllan Deg

**Staff Newydd**

Croeso i Mrs Craig sydd yn addysgu Blwyddyn 3 y flwyddyn hon ac i'n cynorthwywyr newydd: Miss Angharad Beer, Mr Adam John, Mr Tomos Roberts a Miss Ffion Williams.

**Ymwelwyr**

Cawsom nifer o ymwelwyr yn barod y tymor hwn: Cwmni Mewn Cymeriad yn ein haddysgu am anturiaethau'r Arglwydd Rhys a gynhaliodd yr Eisteddfod gyntaf yn Aberteifi, gweithdy Lego gyda thrydan, Mr Grisdale (tad Mrs Grisdale Jones) a ddaeth i ddysgu Blwyddyn 5 am Barc Cenedlaethol Eryri a chynrychiolydd o'r Urdd a gynhaliodd weithdy ar y cylchgrawn CIP gyda Blwyddyn 5 a 6.

**Ymweliadau**

Cafodd Blwyddyn 5 amser da yn Fferm Maes y Fron unwaith eto eleni. Cawsant lawer o hwyl yn dringo creigiau ac yn cerdded ceunentydd.

Cafodd Blwyddyn 4 Dosbarth Olwen wibdaith i Fferm Arch Noa ym Mryste wedi ei ariannu gan y gymdeithas adeiladu NFB fel gwobr am y dosbarth gorau i gyflwyno ceisiadau i'w cystadleuaeth creu poster cyn gwyliau'r Haf. Diolch o galon i'r gymdeithas am ei haelioni.

**Cystadleuaeth Bwyta'n Iach**

Llongyfarchiadau i Alys Grant, Blwyddyn 3 Tristan, ar ennill y brif wobr yng Nghystadleuaeth Brechdan Orau Prydain Brace's Bread fel rhan o Ŵyl Wledig Caerdydd ac i Nia Callaghan, James Clark, Sam Drinkwater, Nathan Lewis ac Elis Owen am gyrraedd y rownd derfynol.

# Ysgol Bro Morgannwg

Félicitations! Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Nia Rowlands, arweinydd pwnc ITM ar ennill gwobr Athro Ieithoedd Tramor y Flwyddyn 2013. Cyflwynir y wobr gan Cilt Cymru a Routes into Languages i athrawon sy'n amlygu rhagoriaeth mewn dysgu ieithoedd. Enwebwyd Mrs Rowlands, sy'n arwain yr adran ieithoedd ers dwy flynedd, gan y disgyblion ac yn dilyn y cais, arsylwad o wers a chyfweliadau gyda disgyblion blwyddyn 10, dyfarnwyd mai Mrs Rowlands oedd wedi cipio'r wobr o'r holl athrawon ieithoedd modern ar draws Cymru. Testun balchder inni ym Mro Morgannwg yn wir!



*Nia Rowlands a'i gwobr*

Bu mwy o ddathlu yn yr adran ITM gyda Jack Tweddle, Bl.8, yn dod yn ail yng nghystadleuaeth Spelling Bee Ffrangeg Cymru 2013. Hefyd, llongyfarchiadau i Joseff Nicholas ar berfformiad canmoladwy yn y gystadleuaeth. Cynhaliwyd y rownd derfynol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth ar Ddydd Gwener, Gorffennaf 19eg. Très bien Jack et Joseff!



*Jack Tweddle yn derbyn ei wobr*

Clywyd atseinio y bitbocsio a'r rapio o'r Bloc Cerddoriaeth ar ddechrau Gorffennaf. Fe ddaeth 20 disgybl o ysgolion cynradd Cymraeg y Fro i Ysgol Bro Morgannwg ac yn ymuno gyda nhw roedd pedwar disgybl Blwyddyn 7 – sef Iestyn Fenn, Cameron Lang, Tomos-Jac Fazackerley a James Rees fel rhan o'r cynllun pontio. Cafwyd diwrnod hynod lwyddiannus a hwylus dan hyfforddiant Ed Holden (sef Mr Phormula) sydd yn arbenigwr yn y maes. Fe lwyddodd pob grŵp i arbrofi gyda thechnegau bitbocsio a'r dechnoleg ddiweddara, yn ogystal â chreu a pherfformio rap eu hunain. Roedd pob un wedi mwynhau datblygu eu sgiliau iaith a cherddoriaeth o dan arweiniad Mr Phormula!



*Mr Phormula*

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd George ar ennill y fedal aur yn Athletau Ysgolion Cymru ym mis Gorffennaf. Cwblhaodd y ras 800m mewn 2 funud 00.96 eiliad. Wedi hynny teithiodd i gemau ysgolion Prydain yn Sheffield ble daeth yn 8fed yn yr 800m.




*Dafydd George*

# Ysgol Glantaf

**Trawsgwlad**



Yn yr Ŵyl Draws Gwlad bu 950 o ddisgyblion ac 20 o athrawon yn rhedeg. Llys Teilo ddaeth i'r brig gydag Illtud yn ail agos, Dyfrig yn drydydd a Dewi yn bedwerydd.

**Gwobr Caerdydd-Stuttgart**

Cynhaliwyd seremoni wobrwyo Gwobr Caerdydd-Stuttgart yn Neuadd y Sir. Bwriad y wobr yw hyrwyddo'r iaith Almaeneg mewn ysgolion a cholegau yng Nghaerdydd. Daeth Lara Durrani Bl.13 yn ail yn y gystadleuaeth a chipio'r wobr o £50.



**Sêr y dyfodol!**

Llongyfarchiadau i Connor Hall, Megan Kearns a Ffion Browning o flwyddyn 11 a Laura Salter o flwyddyn 12. Roeddent yn rhan o'r cast a oedd yn perfformio Les Mis o'r 14eg i'r 18fed o Fedi ym Mhontypridd.

**UK School Games**

Medi 12 - 15 cynhaliwyd UK School Games yn Sheffield. Roedd sawl disgybl o Lantaf wedi cael eu dewis i gynrychioli Cymru, sef Celyn Lewis Bl.9, Megan Ware Bl.9 a Rebeccah Williams Bl.9 fel aelodau o'r tîm ffensio, a Megan Blake Bl.10 a Sara Davies Bl.10 fel rhan o'r tîm hoci.

**Pêl-rwyd**



Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi cyrraedd rowndiau terfynol treialon y sir ar gyfer y tîm dan 14: Megan Manley, Seren Davies, Beca Bennett, Mari Enoch a Lani Jones. Hefyd i Kate Chidley, Mari Sanders, Megan Davies o flwyddyn 11 a Tamara Price o flwyddyn 10 am gael eu dewis i chwarae pêl-rwyd i'r Sir dan 16.

Bydd Kate, Ffion a Katie Sullivan Bl.12 yn mynd ymlaen i dreialon pêl-rwyd Cymru dan 17.

**Rygbi**



Enillodd y tîm dan 15 yng nghystadleuaeth King's School Southampton a daeth y tîm cyntaf yn ail yn y gystadleuaeth dan 18.



**EYP – Senedd Ieuenctid Ewrop**

Wedi blwyddyn o baratoi bu tîm dadlau'r ysgol yn Lerpwl fis Medi yn cystadlu yng nghystadleuaeth flynyddol Senedd Ieuenctid Ewrop (EYP). Cyflwynodd Miriam Plassman araith ymosodol o'r radd uchaf ar y bore Sadwrn a dydd Sul gwelwyd Glantaf yn dod i'r amlwg gyda Sioned Graves blwyddyn 11 a Miriam a Sioned Press yn cyflwyno a chrynhoi dadleuon gyda sglein.Yna daeth y ddadl Ffrangeg. Diolch byth fod Jesse yno! Erbyn diwedd y ddadl agorwyd y llawr i bob iaith. Felly, gydag unigolion yn ein plith yn rhugl mewn Almaeneg, Tsiec a'r Gymraeg ni oedd un o'r timau mwyaf aml-ieithog. Ni ddaethom i'r brig ond teimlwn ein bod wedi rhoi cyfrif da ohonom a'n hysgol ymysg ysgolion bonedd Lloegr. Diolch i Mrs Osborne am ein paratoi mor drylwyr.

## Ysgol Plasmawr

### Pwt o'r Plas

**Taith Gwobr Dug Caeredin**

Ar ddiwedd y tymor yr haf gadawodd grwp o 28 disgybl, 4 athro a 3 arweinydd o ganolfan Addysg Awyr Agored y Bannau, Storey Arms, ar alldaith fynydda a gwobr Dug Caeredin Aur i'r Alpau yn Ffrainc.

Wedi blynyddoedd o baratoi gan y disgyblion a dyddiau'n cerdded mynyddoedd y Bannau ac Eryri, roedd y criw yn barod i wynebu eu her olaf sef alldaith 4 diwrnod, hunan-gynhaliol 92 cilomedr o Huez i Briancon, gan amgylchynu mynydd enwog La Maige. Testun balchder oedd gweld pob un disgybl yn brwydro i gwblhau'r daith yma ac felly yn cwblhau yr uned alldeithiau o'i gwobr Dug Caeredin Aur. Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion a'r staff am ei hymroddiad dros y blynyddoedd a diolch enfawr i Storey Arms am yr holl drefniadau.

**Canlyniadau Haf 2013**



*Criw yr alldaith*

Pleser yw adrodd ar gyfres o ganlyniadau anhygoel i ddisgyblion Plasmawr eleni:

**TGAU**: 5 A*-C = 85% / A*-A = 27%

**Safon Uwch (Lefel A)**: A*-C = 94% / A*-A = 62%

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a phob dymuniad da ar gyfer 2013-14.

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

menter@caerdydd.org
Ffon: 029 20689888
menter caerdydd

# Caerdydd

## Cyrsiau Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Fenter wedi derbyn cyllid gan Gyngor Caerdydd i gydlynu a chyflwyno amserlen o gyrsiau hyfforddiant wedi'u hachredu ar gyfer oedolion. Bydd y cyrsiau yn rhedeg o fis Hydref ymlaen, mewn meysydd fel Hyfforddiant Chwaraeon, Iechyd a Dioglewch, Lles a Dioglewch Plant, Datblygiad Proffesiynol, Cymorth Cyntaf, Rheoli Ymddygiad a Gloywi Iaith. Y gobaith fydd cynnig cyfleoedd i ennill cymhwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg i unigolion mewn gweithleoedd, myfyrwyr, gwirfoddolwyr a staff mewn ysgolion a chylchoedd Meithrin. Am fwy o wybodaeth am y cyrsiau ar gael, ewch i wefan Menter Caerdydd neu cysylltu ag angharad@mentercaerdydd.org

## Cwis

Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia, Nos Sul, Hydref 27 am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. £1 yr un i gymryd rhan.

## Tafwyl 2014

Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron – bydd Ffair Tafwyl y flwyddyn nesaf yng Nghastell Caerdydd ar Dydd Sadwrn, Gorffennaf y 12fed. Cofiwch ddilyn Tafwyl ar Facebook a Twitter i glywed y newyddion diweddaraf am yr Ŵyl nesaf!

## Cr Plant Caerdydd

Da iawn i bawb o Gôr Plant Caerdydd a berfformiodd mewn cyngerdd am y tro cyntaf ar ddechrau mis Medi. Cafodd y côr wahoddiad i berfformio yng nghynerdd blynyddol Stafell Fyw Caerdydd yn Neuadd Reardon Smith. Diolch i'r arweinydd Mrs Marian Evans a Ieuan Jones y cyfeilydd am eu gwaith caled. Mae'r plant eisioes yn ymarfer yn brysur ar gyfer cyngherddau Nadolig!

## Cyrsiau i Oedolion

Mae mwy nag erioed wedi cofrestru ar ein dosbarthiadau i oedolion i eleni – mae'n amlwg bod nifer o'r cyrsiau newydd fel cerameg, clocsio a wordpress yn plesio yn ogystal â nifer o hen ffefrynnau fel gwnio, Sbaeneg a phobi. Mae'r dosbarthiadau ffitrwydd i gyd yn boblogaidd iawn, ond mae lle ar ôl ar y cwrs ffitrwydd i oedolion dros 55 oed yn ystod y dydd! Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o Gyrsiau Oedolion Menter Caerdydd ewch i'r wefan, neu cysylltwch â sarajones@mentercaerdydd.org

## Gweithgareddau Hanner Tymor yr Hydref

Bydd y Fenter yn brysur unwaith eto dros hanner tymor yr Hydref – a bydd nifer o weithgareddau ymlaen i blant. Byddwn yn cynnal 2 Gynllun Gofal, 6 sesiwn chwarae Bwrlwm, gweithdai amrywiol a sesiwn Miri Meithrin i blant meithrin a'u rhieni! Ewch i wefan y Fenter am fwy o fanylion – www.mentercaerdydd.org

## Dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg ar Ddiwrnod Shwmae Sumae!

Dydd Mawrth Hydref 15 bydd y tro cyntaf i Fudiadau Dathlu'r Gymraeg i gynnal Diwrnod Shwmae Sumae – cyfle i atgyfnerthu a dathlu'r Gymraeg a'r ffyrdd y byddwn ni'n cyfarch ein gilydd yn Gymraeg yn ein cymunedau. Bydd y diwrnod hefyd yn gyfle i gefnogi ac annog ymdrechion pawb sydd wrthi'n dysgu Cymraeg.

Bydd Menter Caerdydd yn gwahodd pawb i Fore Coffi Dysgwyr yn y Mochyn Du am 11am, felly beth am alw heibio i ddweud Shwmae – croeso mawr i ddysgwyr ac i Gymry Cymraeg.

Os hoffech chi neu unrhyw fudiad ymuno yn yr hwyl, ewch i dudalen Facebook Shwmae Sumae / www.facebook.com/mudiadau neu ewch i'r wefan www.dathlu.org

## Clonc yn y Cwtsh

Wyt ti'n dysgu Cymraeg? Dere i *Clonc yn y Cwtsh* – sesiwn sgwrsio wythnosol i ddysgwyr sy'n cyfarfod yn y Cwtsh yn Chapter (wrth y fynedfa gefn) rhwng 6.30pm – 8pm. Cyfle perffaith i ymarfer dy Gymraeg gyda dysgwyr eraill. Croeso i bawb!

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Penarth

Achlysur yn gymysg o dristwch dwfn a diolchgarwch diffuant oedd oedfa angladd Elin Davies ar y 9ed o Fedi, yn dilyn ei marwolaeth disymwyth. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i chwaer Eirlys. Bu'r ddwy yn aelodau ffyddlon dros nifer o flynyddoedd, bob amser yn hael eu cyfarchiad a pharod i roi o'u doniau, yn enwedig gyda gwaith llaw yn llunio cardiau Nadolig a phenblwydd.

Achlysur o lawenydd mawr oedd oedfa fedydd Medi Fflur, merch Nest ac Ian Williams a chwaer Dyfrig Moi, ddydd Sul Medi 22ain.

Roedd y ddau achlysur uchod dan ofal ein gweinidog, Y Parchedig Kevin Davies.

Braf iawn yw nodi bod Sian-Meinir Wright wedi dechrau ar ei swydd fel 'ysgrifennydd y pulpud'. Diolch Sian am wirfoddoli. Mae hi'n olynu Gill Lloyd fu'n cario'r cyfrifoldeb dros amser maith. Amhosib yw cyfleu mewn geiriau ein diolch i Gill, ond gobeithiwn ei bod rywsut yn ei synhwyro.

Mae'r gyfres o 'oedfaon hwyrol anffurfiol' wedi ail-gychwyn dan arweiniad Kevin. Dyma gyfleoedd i rannu syniadau a theimladau ynghylch materion sy'n herio pawb.

## Bethel, Rhiwbeina

**ASADO yn Rhiwbeina**

Bnawn Sadwrn, Awst 31ain roedd gŵr o'r Gaiman, Y Wladfa, yn brif gogydd y barbeciw ar lawnt Capel Bethel, Rhiwbeina. Miriam Tilsli ydy Cadeirydd Cymdeithas Cymru Ariannin Cangen y De-Ddwyrain a hi a'i gŵr Geraint drefnodd y digwyddiad. Mae Benito, fel mwyafrif o Gymry'r Wladfa, wedi meistroli coginio Asado ac wedi hyfforddi ei fab-yng-nghyfraith Geraint yn dda iawn! Roedd rhieni Miriam, Benito a Beatrix, wedi treulio nifer o wythnosau yng Nghymru i fwynhau cwmni'r teulu bach ac ar fin dychwelyd adre. Roedd tarten afalau Beatrix yn andros o flasus hefyd. Mwynhaodd y criw niferus ddaeth yno yr achlysur a diolchodd Gwilym Roberts i'r teulu am yr arlwy ac i bawb ddaeth i gefnogi.



*Asado yn Rhiwbeina*

## Eglwys y Crwys

**Llongyfarchiadau**

Am yr eildro o fewn y mis rydym yn llongyfarch William a Nesta Tiplady ar ddod yn dadcu a mamgu unwaith eto. Ganwyd mab bach i Daniel a Sioned - cefnder cyntaf Siôn Gwilym. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Llongyfarchiadau i Robin a Sarah Owen ar enedigaeth Morgan Rhys – aelod newydd i'r Cwmni Drama.

Dymuniadau gorau i Iestyn a Rachel Shapey ar enedigaeth Peter Rhys – ŵyr bach cyntaf Keith a Delyth Shapey – mae Nain a Taid wrth eu bodd.

**Cyfarchion**

Da deall bod Robin Griffith gartref o'r ysbyty yn dilyn triniaeth yn ddiweddar – mae gweld ei eisiau yn yr oedfaon a'r Gymdeithas Ddrama.

Rydym yn anfon ein cyfarchion at Mr D. Gwyn Jones a Mrs Margaret Lewis sydd ddim wedi bod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mali, John, Elin, Gwenno a Mair Rowlands yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn sef Mrs Glennys Roberts, yr Eglwysnewydd. Meddyliwn amdanynt yn eu colled.

**Y Cymdeithasau**

Mae'r holl Gymdeithasau erbyn hyn wedi cychwyn eu rhaglen ar gyfer y tymor newydd. Agorwyd tymor y Gymdeithas gyda pherfformiad arbennig o 'Gofynnwch i Wallace', cynhyrchiad Theatr Na Nog. Portreadwyd Charles Wallace gan Ioan Hefin.

Gwynn Matthews agorodd dymor newydd y Gorlan a chafwyd hanes teulu o Gymry a ymfudodd i Oshkosh, Wisconsin, yn 1850.

Agorwyd tymor y Grŵp Merched gydag anerchiad hynod ddiddorol gan Catrin Hall o Ambiwlans Awyr Cymru. Cafwyd darlun cyflawn o waith nodedig a phwysig y cyfrwng hwn o wasanaethu'r gymuned.

**Ymddeoliad**

Wedi cyfnod o ddeuddeg mlynedd bydd y Parch Glyn Tudwal Jones yn ymddeol ddiwedd Hydref fel Gweinidog Eglwys y Crwys. Mawr yw ein dyled iddo am ei weinidogaeth glodwiw, ei bregethu grymus, a'i gonsyrn arbennig am yr aelodau. Gwerthfawrogwyd ei ymweliadau cyson â'r aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi, mewn cartrefi preswyl, ac yn yr ysbytai. Byddwn yn gweld ei golli yn fawr iawn. Trefnwyd amryw o weithgareddau fel arwydd o ddiolchgarwch yr Eglwys. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddo ef a Delyth.

## Eglwys Dewi Sant

**Cymdeithas Nos Iau**

Ym mis Medi cafwyd dechreuad da i dymor yr hydref gyda noson ddifyr iawn yng nghwmni Cen Williams o Landaf. Dangosodd groesdoriad o gartŵnau a luniwyd ganddo o'r saithdegau hyd y presennol, a phob un ohonynt, nid yn unig yn ein hatgoffa o bob math o storiau o'r newyddion, ond hefyd yn arddangos dawn anhygoel Cen a'i feddwl treiddgar. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Dyfrig Lloyd, y

Ficer.

**Diwrnod Agored**

Dydd Sadwrn 28 Medi bu'r eglwys ar agor fel rhan o'r cynllun 'Drysau Agored'. Am 11.00 o'r gloch cafwyd cyflwyniad hynod ddiddorol i hanes trofaus cynulleidfa Anglicanaidd Cymraeg Caerdydd gan Dr Stuart Owen-Jones. Codwyd yr eglwys Gymraeg gyntaf yn 1856 sef Eglwys yr Holl Saint yn Tyndall Street drwy haelioni Sophia, Ardalyddes Bute. Roedd yn rhaid i'r gynulleidfa eistedd yn y seddau canol, fodd bynnag, i osgoi'r cerrig a daflai Pabyddion Gwyddelig atynt drwy'r ffenestri!! Erbyn 1870, Saesneg oedd iaith y gwasanaethau a chaewyd yr eglwys yn 1899. Yn 1889 rhoddodd Arglwydd Tredegar safle yn Howard Gardens ar gyfer eglwys Gymraeg newydd, a adnabyddwyd fel Eglwys Dewi Sant. Yno bu'r gynulleidfa Gymraeg tan 1941 pan ddinistrwyd yr adeilad gan dân a achoswyd gan fom Almaenig. Yn dilyn hynny, addolai'r gynulleidfa yn neuadd yr eglwys. Un oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ac a dystiodd iddo briodi yn y neuadd/eglwys oedd yr Esgob Cledan Mears! Yn 1956, gan mlynedd wedi ei sefydlu yn Tyndall Street, symudodd y gynulleidfa i adeilad Eglwys St Andreas, yn St Andrew's Crescent gan ddal gafael yn yr enw Eglwys Dewi Sant. Diweddodd Dr Owen-Jones ei gyflwyniad drwy ddangos y llestri cymun a roddasai Ardalyddes Bute i'r eglwys wreiddiol yn 1856, ac a ddefnyddir yn achlysurol hyd heddiw.

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd datganiad ar organ enwog y Tad Willis gan gorfeistr a chyfarwyddwr cerdd yr eglwys, Ieuan Jones. Diolchwyd iddo ef a Dr Stuart Jones gan Rhys Jones, Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf.

**Llongyfarchiadau**

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Mrs Margaret Jones Rhiwbeina ar gyrraedd ei phen blwydd yn nawdeg oed yn ddiweddar.

# Ebeneser

**Gŵyl Fedi**

Dros benwythnos 13-16 Medi cynhaliwyd menter newydd i lansio ein gweithgareddau dros y flwyddyn i ddod. Cynhaliwyd gweithgareddau i'r plant, ieuenctid a'r rhai hŷn. Ar y nos Wener dyna le delfrydol oedd Canolfan 'Y Gate' y Rhath i gynnal gweithgaredd yr ieuenctid ac oedolion ifanc. Yn City Church ar y Sadwrn cafwyd astudiaeth Feiblaidd gydag Arfon Jones, seminar gan Phil Ellis ar y testun 'Cristion mewn cymdeithas aml-ffydd', sesiwn babanod a'u rhieni, Miri Medi i'r plant a lansio llyfr ryseitiau dwyieithog y chwiorydd - *Bara Beunyddiol*. Bydd elw gwerthiant y llyfr yn mynd tuag at ein helusen am eleni sef Haiti. Ar y nos Lun braint i ni oedd cynnwys darlith dan nawdd Adran Ddiwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru fel rhan o'r ŵyl, sef darlith gan Carys Moseley, un o blant yr eglwys, ar Johannes Wallensis (Siôn o Gymru) ac arwyddocâd diwinyddiaeth Urdd San Ffransis o Assisi, ddoe, heddiw ac yfory.

**Cleifion**

Dymuniadau gorau i Jean Thomas a Dr Iwan Morris, yn dilyn llawdriniaethau yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt wrth iddynt wella a chryfhau. Dyna lawenydd oedd clywed fod Emrys Paul Peleg Williams, ŵyr bach Arwel ac Eleri Peleg Williams, wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn Los Angeles. Diolch i dechnoleg fodern, roedd taid a mam-gu yn gallu cadw cysylltiad cyson â'r teulu. Anfonwn ninnau fel teulu Ebeneser ein dymuniadau gorau i'r teulu bach ar draws Môr Iwerydd.

**Penblwydd arbennig**

Prin y gallen ni adael i fis Medi basio heb ddymuno 'Penblwydd Hapus' arbennig iawn, i'n cyfaill a'n cyn-weinidog, y Parch Ddr Geraint Tudur, yn 60 oed ar 27 Medi. Dymuniadau gorau iddo.

# Salem, Treganna

**Bedyddiadau**

Bedyddiwyd Elliw, merch Lowri a Martyn 15 Medi yn ystod gwasanaeth y bore, a bedyddiwyd Cai, mab Lowri a Spencer am 3 y pnawn. Llongyfarchiadau i'r ddau deulu ar achlysur mor arbennig a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Clwb Brecwast**

Mae'r clwb brecwast wedi dechrau cyfarfod eto ar ôl toriad dros yr haf. Croeso i blant o dan oed meithrin am 9.45 am yn ail fore Mercher yn ystod y mis.

**Adran yr Urdd**

Mae'r adran ar gyfer plant oed cynradd wedi dechrau eto ar ôl yr haf, ac yn cwrdd rhwng 6-7 ar nos Iau, am yn ail wythnos. Bydd rhaglen brysur drwy gydol y tymor o weithgareddau amrywiol. Daeth Anni Llŷn (Stwnsh) i'r adran i gynnal gweithgareddau ar 26 Medi.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Cyfarfu'r clwb yn ystafell Edwin am sglods a DVD ar Fedi 27 am 7.30 i greu rhaglen ar gyfer y flwyddyn. Bydd y clwb yn cwrdd unwaith y mis, ac yn trefnu taith breswyl ym mis Tachwedd.

**Clwb Coffi**

Cyfarfu'r clwb coffi fore Gwener 13 Medi yn Ystafell Edwin. Croeso i bawb ymuno am goffi, sgwrs a chwmniaeth.

**Clwb Cerdded**

Cafwyd bore hyfryd o gerdded gan gwrdd yn Llansanffraid Gwynllwg (*StBrides Wenloog*), tro i'r dwyrain o Gaerdydd tua Chasnewydd, gan gerdded llwybr da.

**Cinio'r Clwb Criced**

Cynhaliwyd cinio blynyddol clwb criced Salem ar nos Wener 20 Medi. Cafwyd cyfle i drafod llwyddiannau'r tymor ac eleni cyflwynwyd Tarian Tomos Owen i Mike Hayes sef y batiwr a sgoriodd y mwyaf o rediadau yn ystod y tymor.




*Tarian Tomos Owen yn cael ei gyflwyno i Mike Hayes yng nghinio'r clwb criced.*

**Gwasanaeth Diolchgarwch**

Bydd y gwasanaeth diolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul fore Sul 13 Hydref am 10.30. Croeso mawr i chi ymuno â ni.

# DINESAIR Rhif 136



### Ar Draws

1. Griddfan gwae i'r ysbryd (7)
8. Llannau teg yn eithafion Enlli (7)
9. Casgliadau llafur y bardd? (7)
10. 'Pan fo ----- i gyd yn mygu,
    A sŵn yr utgorn ucha'i radd' (AG) (5)
11. Non yn dal y Teifi bron fel Brenin y Môr (7)
12. Man diogel i esgid y dringwr (7)
14. Mae naid bell yn beryglus heb allu gweld (7)
18. Rhywbeth sy'n denu at y naid gam (7)
20. Af yn ôl wedi'r amser i'r cyfarfod (5)
21. Amgylchu gwrach ddrwg llawen ar yn ail (7)
22. Cynhyrchydd trydan yn achosi nam yng nghalon Deio (7)
23. Heb diddanwch dysg i Uri i blygu (7)

### I Lawr

1. '----- ----- ----- ----- ----- olwg,
   Gwêl yn amlwg ben y bryn' (DW) (1,2,5,3,2,)
2. 'A'r gân yn fyw fel cynt
   A Chymru'n fyw o hyd yn ----- Llyn' (DI) (6)
3. Nwyf a miri (5)
4. 'Bob bore y ----- o newydd: mawr yw dy ffyddlondeb' (Galarnad Jeremeia) (6)
5. Offer clyw + offer fferm = cysur i'r pen (7)
6. Mae amser yn drysi côf dyn (6)
7. 'O genedlaethau ----- -----
   A'u breuddwyd dwyfol a'u dwyfoldeb brau' (WW) (8,5)
13. 'A thra'm teflir yma ac acw
    Ar ----- donnau'r byd (ET) (7)
15. Croen i'th hud (6)
16. Broga yn neidio cyn dechrau'r dydd dan y bondo (6)
17. Dios y delir tras heb reswm (6)
19 Yr Ŵyl i ddechrau'n dawel arogli swper gwahanol (1,4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Tachwedd.

**Enillydd Croesair Rhif 133 -**

**Huana Simpson, Llansanwyr**

**Enillydd Croesair Rhif 134 -**

**Phil Stone, Bae Caerdydd**

**Atebion Rhif 134**

**Ar Draws** – 1. Agoriadau; 8. Llaca; 9. Pan dynnwn; 11. Record; 12. Afonydd; 13. Yn cwtogi; 16. Dewisais; 19. Llywela; 20. Tic toc; 23. Marchredyn; 24. Ynys; 25. Aberdaron

**I Lawr** – 2. Gwag fore; 3. Rwdins; 4. Arno ddydd a 5. Arwr; 6. Taro; 7. Hafdai; 10. Nedw; 14. Casllwchwr; 15. Gorlwytho; 16.Datrys; 17. Siom; 18.Gwledda; 21. Cwyr; 22. Caib


## Y GORNEL DDARLLEN

## *Cenedligrwydd, Cyfiawnder a Heddwch*

E. Gwynn Matthews (Gol.) Y Lolfa, pris £9.95.

Ar faes yr Eisteddfod yn Ninbych lansiodd gwasg y Lolfa gyfrol o saith ysgrif ar wahanol agweddau ar syniadaeth wleidyddol sydd yn berthnasol iawn i sefyllfa Cymru heddiw, *Cenedligrwydd, Cyfiawnder a Heddwch*. Hon yw'r ail gyfrol mewn cyfres newydd a lansiwyd y llynedd gyda *Cred, Llên a Diwylliant*, (cyfrol deyrnged i Dewi Z. Phillips).

Daw tri o'r chwe awdur o Gaerdydd: Richard Wyn Jones – cyferbyniad o syniadau Gwynfor Evans a Saunders Lewis, Huw Williams – trafodaeth feirniadol ar syniad cyfoes o ryfel cyfiawn, Gwynn Matthews – gwahanol gysyniadau o wladgarwch. Y tri awdur arall yw Gwenllian Landsdown Davies – dadl athronyddol o blaid annibyniaeth i Gymru, Douglas Jones – y Blaid Gomiwnyddol a'r Cwestiwn Cenedlaethol Cymreig a Howard Williams – natur athroniaeth wleidyddol.




Meddai'r Lolfa,'Mae'r tri maes a enwir yn y teitl yn gwbl ganolog i fywyd gwleidyddol yng Nghymru a'r byd ... Cyfrol yw hon sydd yn codi'r pynciau na ellir eu hosgoi heddiw, a'i bwriad yw ein galluogi i weld sawl gwedd newydd ar faterion cyfoes.'

Dywed Cynog Dafis yn ei adolygiad i Gwales 'Dyma esiampl o athronyddu goleuedig mewn iaith ddiledryw a darllenadwy.' Am yr adolygiad llawn a rhagor o wybodaeth gweler **www.gwales.com**

# Calendr y Dinesydd • Hydref-Tachwedd

**Iau, 10 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Noson yng nghwmni'r Athro Prys Morgan, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Croeso arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Siân Dowling (029-2075-3670).

**Sadwrn, 12 Hydref**
Gêm rygbi: CWINS CAERDYDD v. Tyllgoed (*Fairwater*). Adran 3 De-Ddwyrain. C. G. 2.30pm, Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm.

**Llun–Mawrth, 14–15 Hydref**
Cwmni Theatr 3D yn cyflwyno 'Wyneb Dros Dro' yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Tocynnau: £8–£12. Swyddfa docynnau: 029-2063-6464.

**Mercher, 16 Hydref**
Cymdeithas y Gorlan. Ifan a Margaret Roberts, Pen-tyrch, yn sgwrsio ar y testun, 'Trysor Prin', yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

**Gwener, 18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Senghennydd 1913.' Sgwrs gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 19 Hydref**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Lis Williams ar y testun 'Ann Griffiths a'r Gair'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 21 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs am anasthesia gan Dr Ralph Vaughan, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 22 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Sgwrs gan Rhys Patchell ar y testun, 'Glas a Choch ac Ambell Lygad Ddu', yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mercher, 23 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I fyd yr adar yng nghwmni Daniel Jenkins-Jones o RSPB Cymru, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.


## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn awyddus i gael cymorth rhywun i fod yn gyfrifol am hysbysebion. Os hoffech ein helpu, byddai Bryan James yn falch o gael sgwrs â chi - 029 20 566731 neu cysylltwch ar db.james@ntlworld.com

Gellir trefnu comisiwn.


**Iau, 24 Hydref**
Y Ganolfan Addysg Gristnogol i Oedolion (CACEC) yn cyflwyno darlith gan yr Athro M. Wynn Thomas, 'The Brush's Piety: R. S. Thomas's Painting Poems', yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig y Ddinas, Plas Windsor, am 7.30pm.

**Sadwrn, 26 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais: Oedfa Ddinesig Ddwyieithog i ddathlu daucanmlwyddiant sefydlu'r Tabernacl eleni, am 3.00pm, gyda'r Parch. Roy Jenkins yn bregethwr gwadd a'r Cyngh. Derrick Morgan, Arglwydd Faer Dinas Caerdydd, yn bresennol.

**Sadwrn, 26 Hydref**
Côr Philharmonic Caerdydd yn cyflwyno cyngerdd 'Caneuon o'r Sioeau' gyda Wynne Evans, am 7.30pm yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd.

**Llun, 28 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Te parti i ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 21ain oed. Yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 3.30pm.

**Mercher, 30 Hydref**
Cymdeithas y Gorlan. Eiry Palfrey, Y Barri, yn canu clod y gymuned Gymreig ym Mhatagonia a fydd yn dathlu 150 mlwyddiant ei bodolaeth yn 2015. Yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.30pm.

**Gwener, 1 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: 'Dinesig a Chenedlaethol: Amgueddfa Caerdydd 1863–1912.' Sgwrs gan yr Athro Bill Jones, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 1 Tachwedd**
Cyngerdd y Dinesydd yn 40: Beti George yn cyflwyno noson o gerdd a chân a chwerthin i ddathlu pen-blwydd papur bro hynaf Cymru, Clwb y Diwc, Duke of Clarence, Clive Road, Caerdydd, am 8.00 o'r gloch. Tocynnau yn y Caban a Siop y Felin.

**Sadwrn, 2 Tachwedd**
Cyfarfod arbennig i ddathlu cyfraniad Roy Saer a Robin Gwyndaf tuag at gasglu deunydd llafar ym meysydd cerddoriaeth werin a llên gwerin, yn Ystafell Bwyllgor Amgueddfa Werin Cymru, 1.30pm–4.30pm. Cyfarfod dan nawdd Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Cyn-Fyfyrwyr Prifysgol Cymru, ond bydd croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 5 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Sgwrs am Waldo gan Aled Gwyn, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mercher, 6 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Sôn am Fwyd', gyda Elin Wyn Williams o gwmni arlwyo Bant a la Cart, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 6 Tachwedd**
Merched y Wawr Cangen Bro Radur. Noson yng nghwmni y Barnwr Eleri Rees, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Iau, 7 Tachwedd**
Clwb Gwawr Llygaid y Dydd. Blas Da yn Institwt Llandaf am 7.45pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

**Gwener, 8 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd ar y cyd â Chymdeithas Carnhuanawc, yng Ngwesty Churchills am 7.30pm. Prif Westai: Vaughan Roderick. Manylion pellach: Glyn Hughes (glyn@clwb.net).

**Mawrth, 12 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. 'Dafydd William yr Emynydd ac Eglwys Croes-y-parc.' Darlith gan yr Athro E. Wyn James yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mawrth, 12 Tachwedd 12**
Merched y Wawr Caerdydd. Beti George yn trafod y cyflwr Alzheimer, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30. Croeso cynnes i bawb. Rhagor o fanylion: 029-2075-4379.

**Mawrth–Iau, 12–14 Tachwedd**
Theatr Genedlaethol Cymru a Tandem yn cyflwyno 'Pridd' gan Aled Jones Williams, yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Iau, 14 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Trafodaeth ar dlodi a'i amrywiol agweddau. Siaradwyr: Cathrin Daniel (Cymorth Cristnogol), y Parch. Aled Edwards a myfyrwyr chweched dosbarth Ysgolion Glantaf a Plasmawr. Yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm.

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Cerddi'r Goron a Cherddi Eraill.' Sgwrs gan y Prifardd Ifor ap Glyn, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 16 Tachwedd**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan yr Athro E. Wyn James ar y testun 'William Salesbury: Y Gair yn Ein Hiaith'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. 'Llên Gwerin.' Sgwrs gan Allan James, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan y Parch. Ieuan Davies am ei lyfr ar yr Athro Syr John Meurig Thomas, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. 'Hawl i Holi.' Panelwyr: Llŷr Gwyn Lewis, Carys Evans, Rhian Williams a Dyfrig Parri. Cadeirydd: Elinor Patchell. Yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mercher, 20 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Datganiad cerddorol gan Joy Cornock (soprano) a Bethan Semmens (telyn), yn festri Capel Minny Street am 2.00pm. Diolch i 'Live Music Now'.

**Iau–Sadwrn, 21–23 Tachwedd**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Llanast!', cyfieithiad Gareth Miles o *Le Dieu du Carnage* gan Yasmina Reza, yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina



*Y nofelydd Llwyd Owen*

Croesawyd Llwyd Owen, y nofelydd lleol ag iddo enwogrwydd cenedlaethol, i gyfarfod cyntaf y tymor ar nos Lun,16 Medi. Mae eisoes wedi cyhoeddi chwe nofel ac mae un arall ar y gweill. Yn ei ddull agos atoch a direidus, cafwyd ganddo hanesion difyr a dwys ei fywyd bob dydd fel mab ac ŵyr, fel gŵr ifanc mentrus a gymerodd wraig ac sy'n magu dwy ferch fach; hanesion a fu'n gyfrwng i ysgogi ei ddychymyg i greu ei nofelau. Mae ei nofelau yn arbennig o boblogaidd ymysg yr ifanc a dangosodd yr ymateb gafodd y noson honno i'r pytiau o'r nofelau a ddarllenodd fod y to hŷn hefyd yn gwerthfawrogi ei ddyfeisgarwch a'i awydd i dorri tir newydd. Roedd yn canmol Gwasg y Lolfa a'r golygydd yno, Alun Jones, am roi hwb i'w lenydda. Mae Llwyd o'r farn fod trawsdoriad ardderchog heddiw o nofelau ar wahanol bynciau a bod yr ysgrifennu'n dda. Bu holi brwd gan y gynulleidfa wedi'r anerchiad ac roedd pawb yn ddiolchgar iddo am roi agoriad llygad ar fywyd a gwaith nofelydd.

Croesawyd aelodau newydd – Mair Morgan a Dwyfor ac Elinor Jones, a llongyfarchwyd Eiryl Walters a Beryl Jenkins ar enedigaeth eu hwyrion. Bu gwerthiant mawr ar y nofel *Aderyn Brith*, nofel gyntaf un o aelodau'r Gymdeithas, Rhiannon Gregory. Cydymdeimlwyd â Mair Owen a'i theulu yn eu profedigaeth. Bu Mair a Gwyndaf yn aelodau gwerthfawr a ffyddlon.

Ar 12 Hydref, am 7.30 o'r gloch, yng Nghapel Bethany, cynhelir cyngerdd gan Gôr Meibion Taf i godi arian at *Ymchwil i Gancr y Pancreas*. Gobeithio y daw llawer i gefnogi.

Dechrau Mehefin 2014 bydd y Gymdeithas yn trefnu taith pedair noson i Gernyw. Beth am ymuno â'r cwmni? Croeso i chi.

# Cymdeithas y Beibl

Mewn oedfa a ffair yng Nghapel y Crwys, nos Fercher, 18 Medi, cododd y pwyllgor lleol dros £700 at waith y Gymdeithas. Mae 2013 yn flwyddyn o bwys gan mai 450 o flynyddoedd yn ôl, yn 1563, y pasiwyd deddf seneddol yn gorchymyn cyfieithu'r Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin i'r iaith Gymraeg. Bu sawl cyfieithiad wedi hynny a'r mwyaf diweddar yw *Beibl.net* a ymddangosodd eleni, a phob un yn ceisio cyfleu neges ddealladwy i ddiwylliant ei oes. Mae Cymdeithas y Beibl yn hybu hyn ac yn dymuno gwneud neges y Beibl yn berthnasol i oes newydd. Ar werth y noson honno roedd jams a chutneys o Minny Street, teisennau o Ebeneser, poteli a nwyddau o Salem a bord yn llawn pethau glas o bob math o'r Tabernacl. Ychwanegodd y capeli a'r eglwysi i gyd at hyn a chodi'r swm anrhydeddus o £700.



*Daniel ac Alun Tiplady a'r Parchedig Glyn Tudwal Jones a gymerodd ran yn yr oedfa.*




# CHWARAEON

## CLWB CYMRIC

Mae tîm cyntaf Clwb Cymric wedi cael dechrau anodd yn eu tymor cyntaf yn chwarae ar lefel uwch yn Adran Gyntaf Cynghrair Amatur De Cymru. Gyda saith gêm wedi'u chwarae, dim ond chwe phwynt sydd ar y bwrdd, a'r rheiny drwy guro Splott Albion a Mynydd Cynffig.Ond mae nifer o'r gemau wedi bod yn agos, ac mae hi'n dal yn ddyddiau cynnar yn y tymor, felly mae digonedd o bwyntiau i anelu atynt.

Yn y cwpanau, collwyd 3-0 yng Nghwpan Cymru i dîm Cas-gwent sydd ddwy adran yn uwch, ond curwyd Pencoed Athletic, wedi amser ychwanegol, yng Nghwpan Cymdeithas Pêl-droed De Cymru.

Ar ôl i'r ail dîm golli eu gêm gyntaf 1-0 yn erbyn tîm cryf Grange Albion, cafwyd dwy fuddugoliaeth gampus; 4-1 yn erbyn Cardiff Draconians, sef tîm o ardal Gabalfa, a llond



*Asgellwr chwith Cymric, Osian Pritchard yn gwarchod y bel.*

trol o oliau wrth guro Llanrhymni 11-0, saith ohonynt gan Iwan "Bych" Hughes! Unwaith eto'r tymor yma, mae ysbryd da o fewn yr ail dîm ac mae'r rhagolygon yn addawol am dymor llwyddiannus arall.

Mae hyfforddi y gaeaf bellach wedi dechrau ar gae *Astroturf* Stadiwm Lecwydd, bob nos Lun 8yh-9yh, ac mae croeso mawr i chwaraewyr newydd o bob safon. Hefyd,mae gofynion rhedeg timau ar safon uwch wedi cynyddu, ac mae'r clwb yn chwilio am unigolion a fyddai'n ymddiddori mewn ymuno â'r tîm hyfforddi. Ebostiwch clwbcymric@hotmail.com i fynegi diddordeb.

## C.R.I.C.C.

Gyda dim ond pythefnos o'r tymor wedi pasio mae CRICC dan 11 yn dathlu. Ar yr ail benwythnos, aeth y garfan i dwrnament Maesteg Celtic a dychwelyd yn fuddugol. Trechwyd Tondu 5-3; Cymry Maesteg 4-1; Maesteg Celtic 6-2 a Llanilltud Fawr 7-0. Llongyfarchiadau i'r hyfforddwyr Iolo Evans a Chris Johnes.

Mae'r tymor wedi dechrau i'r deg oedran sy' nawr yn cynrychioli CRICC. Chwaraewyd gêmau cyntaf gan mwyaf yn erbyn Rhiwbeina a Phenarth. Edrychwn ymlaen am fwy o lwyddiant yn ystod y tymor.



*Carfan yr oedran ar noson wobrwyo ddiwedd tymor diwethaf.*

## Noson Hanesyddol i Dîm y Gleision

Yn ystod yr hâf gosodwyd y maes ffuglaswellt cyntaf yng Nghymru ym Mharc yr Arfau, sef cartref tîm rygbi'r Gleision. Costiodd y fenter hon £400,000 i'r clwb, a nos Wener 23 Awst chwaraewyd ar y maes newydd am y tro cyntaf pan wynebodd y Gleision y Sale Sharks. Serenodd Rhys Patchel yn y gêm, a'r sgôr terfynol oedd Gleision 45, Sale 24. Bydd y maes newydd yn gaffaeliad mawr, ac ni fydd angen gohirio gemau bellach oherwydd cyflwr mwdlyd y maes.

## Rheolwr newydd i Stadiwm y Mileniwn

Cyn swyddog uchel yn y fyddin yw Mark Williams, olynydd Gerry Toms fel rheolwr newydd ein stadiwm cenedlaethol. Daw o Lyn-nedd yn wreiddiol, a bu'n gwasanaethu yng Ngogledd Iwerddon, Bosnia, Kosovo ac Irac yn ystod ei gyfnod yn y fyddin. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.


Watkins & Gunn
SOLICITORS

**YDYCH CHI'N YSGARU?**

***Beth am ddatrys pethau yn defnyddio dull ymarferol?***

Gall ein tîm arbenigol gynghori ar bob agwedd o dor perthynas.

- Ysgariad
- Cyplau di briod
- Cytundebau gwahanu
- Cytundebau ariannol yn sgîl ysgariad
- Trefniadau ar gyfer plant wedi ysgariad
- Trefniadau cyd-fyw
- Gweithred newid enw

Y mae Leah Rhydderch yn arbenigo mewn Cyfraith Teulu ac yn rhugl yn y Gymraeg.

*Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'n Swyddfa yn Llandaf –*

**02921 154 313**

*neu beth am ymweld â'n gwefan*

www.watkinsandgunn.co.uk